

Agenda – Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 5 – Tŷ Hywel	Robert Donovan
a fideogynadledda drwy Zoom	Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Iau, 27 Mawrth 2025	0300 200 6565
Amser: 09.30	SeneddEconomi@senedd.cymru

Hybrid

Rhag-gyfarfod preifat

09.15 – 09.30

Sesiwn gyhoeddus

09.30 – 11.40

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

09.30

2 Hybu Cig Cymru – Panel 2

09.30 – 10.30

(Tudalennau 1 – 27)

Prys Morgan, Cyfarwyddwr Caffael, St Merryn Merthyr, Kepak

Paul Edwards, Cyfarwyddwr Safle, Dunbia Llanybydder

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

Atodiad 1: Ymateb Llywodraeth Cymru: Adolygiad o Hybu Cig Cymru – Hydref 2016

Papur tystiolaeth – Prys Morgan, Kepak (Saesneg yn unig)

Papur tystiolaeth – Paul Edwards, Dunbia Llanybydder (Saesneg yn unig)



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Egwyl

10.30 – 10.40

3 Hybu Cig Cymru – Panel 3

10.40 – 11.40

(Tudalennau 28 – 44)

José Peralta, Prif Swyddog Gweithredol, Hybu Cig Cymru

Catherine Smith, Cadeirydd, Hybu Cig Cymru

Dogfennau atodol:

Papur tystiolaeth – Hybu Cig Cymru

4 Papurau i'w nodi

11.40

4.1 P-06-1488 Sefydlu 'Cymdeithas Gofal' i Fynd i'r Afael â'r Argyfwng COVID Hir yng Nghymru

(Tudalennau 45 – 46)

Dogfennau atodol:

Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau – 7 Mawrth 2025

4.2 Cyfarfod y Grwp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

(Tudalen 47)

Dogfennau atodol:

Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth,
Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad – 10 Mawrth 2025

4.3 Oedi wrth Benderfynu ar Geisiadau ar gyfer Unedau Dofednod Dwys – Cais am Fesurau Dros Dro ac Amserlen Glir

(Tudalennau 48 – 49)

Dogfennau atodol:

Llythyr oddi wrth Jane Dodds AS at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio – 10 Mawrth 2025 (Saesneg yn unig)

4.4 Difrod a Chau Porthladd Caergybi yn Dilyn Storm

(Tudalennau 50 – 55)

Dogfennau atodol:

Llythyr oddi wrth Weinidog Trafnidiaeth Llywodraeth Iwerddon – 10 Mawrth 2025 (Saesneg yn unig)

Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Brif Swyddog Gweithredol Irish Ferries – 18 Mawrth 2025

4.5 Adolygiad y Pwyllgor Busnes o'r prosesau ar gyfer Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelod

(Tudalen 56)

Dogfennau atodol:

Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Gadeirydd y Pwyllgor Busnes – 13 Mawrth 2025

4.6 Dilyniant i gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2025 – Llwybrau prentisiaeth

(Tudalennau 57 – 60)

Dogfennau atodol:

Llythyr oddi wrth y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol – 13 Mawrth 2025

4.7 Llwybrau prentisiaeth – profiad gwaith

(Tudalennau 61 – 71)

Dogfennau atodol:

Ymateb ysgrifenedig gan Estyn – 14 Mawrth 2025 (Saesneg yn unig)

Ymateb ysgrifenedig gan Gyngor Ysgolion Annibynnol Cymru – 16 Mawrth 2025 (Saesneg yn unig)

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

11.40

Sesiwn breifat

11.40 – 13.05

6 Trafod tystiolaeth yn dilyn y cyfarfod

11.40 – 11.50

7 Llwybrau prentisiaeth: Trafod y materion allweddol

11.50 – 12.20

(Tudalennau 72 – 86)

Dogfennau atodol:

Papur materion allweddol (Saesneg yn unig)

8 Difrod a Chau Porthladd Caergybi yn Dilyn Storm: Ystyried adroddiad drafft

12.20 – 12.35

(To Follow)

Dogfennau atodol:

Adroddiad drafft (Saesneg yn unig)

9 Yr Economi Sylfaenol: Ystyried adroddiad drafft

12.35 – 13.05

(Tudalennau 87 – 125)

Dogfennau atodol:

Adroddiad drafft (Saesneg yn unig)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Written evidence from Prys Morgan, Kepak

Thank you for the opportunity to provide evidence to the Economy, Trade and Rural affairs committee regarding Hybu Cig Cymru.

To provide context for the response I would like to provide some background of my involvement with HCC. I worked for MLC Cymru before moving to HCC in 2003, as Industry development manager. At the time we secured several EU projects and support from Welsh Government. In the financial years 2003/2004 to 2005/ 2006 this contribution ranged between 37 % and 46% of HCC income.

In 2008 I joined Welsh Country Foods as Procurement Director however I maintained a close working relationship with HCC and was appointed to the Board of HCC in 2012. I resigned from the Board when I accepted the role of Head of Operations at HCC in 2015 where I also contributed to establishing a database for sheep movements, EID Cymru. I returned to the private sector in 2017 and was appointed to the Board of HCC in 2020 until I resigned in 2024 due to governance concerns.

For clarity I am employed by a red meat processor Kepak who pays Welsh red meat levy and I pay Welsh red meat levy as a livestock producer in Wales. The family farms 1000 sheep and 40 suckler cows.

The 1967 Agricultural Act established the need for a levy to support the red meat industry due to market failure. This recognised that the industry comprised many small farmers and individual meat processors. The levy was therefore established with contributions from across the sector and to be used for the benefit of the whole supply chain. HCC was established in 2003 to promote red meat and to increase productivity of the sector.

Whilst there have been changes in the number of abattoirs and farms since the levy was established, there has been no significant change within the supply chain and the market failures that existed in 1967 still exist today. A key role of the levy body has been to communicate the good work being done by farmers, generating respect for the sector and helping Government to understand the key role that livestock farmers in Wales play. This communication work has been successful in lamb, but less so for beef where global issues relating to sustainability have highlighted the lack of understanding in this area.

Since farmers and industry pay levy to HCC, it is extremely important that farmers and industry are fully represented in the HCC Board and can control/direct how that public money is spent for the benefit of all. Hence Board representation should be selected by the Industry and not by Government and chosen from active stakeholders. In 2003, HCC was owned by Industry (Farming Unions, WDA, WLBP and MLC) not by Government and that arrangement worked well.

There are several areas that require strong leadership bringing together the industry and Government. There is strong feeling that HCC have not been fighting the corner for red meat producers in the way that had been done in the past and the protest by over 6000 farmers demonstrates failure to communicate and deliver practical solutions to the challenges the industry face.

At this moment in time, the prices being paid for beef and lamb are good, however this hasn't been the case and in a volatile market is not guaranteed to continue. Against this backdrop, farm incomes in 2023/24 remain extremely low with many farmers working a less than the minimum wage. Hence there is still a need for red meat levy support to help increase productivity / efficiency, to harness developments and technologies through R&D and to support the marketing of PGI Welsh Lamb, PGI Welsh beef and pork from Wales.

Production and processing costs have increased significantly in recent years and the same will apply to organisations promoting the industry and its brands. Hence careful consideration must be given to reducing costs and improving the efficiency of the organisation that spends the Welsh red meat levy, reducing operating costs and working collaboratively with the other levy bodies in non-competitive areas. Examples of this could/should include HR, finance, market intelligence, R&D, nutritional qualities of red meat and the defence of the reputation of the sector. Consideration should also be given to short-term measures to assist the existing organisation to delivery against its remit.

The reputation of any premium brand is built on the reputation of the organisation promoting that brand, not only with customers/consumers but with other stakeholders including Welsh Government, FSA Wales and wider Industry. The is an area that HCC has previously excelled at. Hence it is essential to ensure that that reputation is not undermined by collateral damage and to reassure Industry and levy payers that the monies they have contributed are being spent responsibly.

To that end, it is essential that the future organisation maintains good governance by having a Board of non-executive directors who are actively involved in the industry to provide the employed executive with strategic direction for responsible levy spend.

It should be noted that HCC is first and foremost a Limited company and is governed by company law. Whilst the company is owned by Welsh ministers the directors must comply with company law which takes primacy over other framework agreements from Welsh Government.

HCC at present is almost entirely funded by industry in terms of Welsh Red meat levy and based on this the industry should own the organisation whatever structure is

agreed upon, reverting to a similar structure to that of HCC when it was set up as described above but with more joint working with other levy bodies.

As a Board member and former member of staff who has been involved with HCC since 2003, the adverse publicity which has surrounded HCC in recent years has, personally, been soul-destroying and, professionally, I have found the publicity very disconcerting.

As a representative of Kepak, a company processing Welsh beef and lamb, this negative publicity undermines customer confidence and trust in the organisation marketing the product and making premium quality claims. Unfortunately the narrative over last 12 months has not been conducive to promoting livestock farming in Wales, which is a fundamental role of the organisation. There has also been, over last 12 months, an exodus of skilled people from HCC and this has consequently had an impact on the Industry in Wales at a crucial time. As levy payers we need to understand the root cause of this as it brings into question the ability of the organisation to deliver against it's remit.

As levy payers we also have to understand why both Government and HCC are pursuing an agenda that is contributing to a declining agriculture economy in Wales when Welsh red meat production is recognised as one of the most sustainable products. This has been exacerbated by the fact HCC is not delivering on its original goals and both levy income and production is declining. Livestock numbers in Wales and UK are declining this reduces the levy available. The figure of around 8.7 million sheep in Wales seen in the last 2 years is the lowest level since 2011. Since 2004 in Wales the dairy herd has increased slightly (3%) and the size of the beef herd has fallen considerably (33%). Recent changes to the VAT status of HCC also means that there is 20% less funds available to deliver activities as VAT cannot be claimed back from HMRC.

Mr Paul Edwards

@dunbia.com

18th March 2025

Dear Nicole,

Ref: Request for written evidence

Evidence to Environment, Trade, and Rural Affairs Committee Inquiry into Hybu Cig Cymru/Meat Promotion Wales (HCC).

We understand the Committee is reviewing the effectiveness of HCC in delivering on its priorities and providing value for money to levy payers. Our written evidence is in line with the Committee members agreed focus of the enquiry, namely:

■ **HCC's performance in delivering against its current priorities.**

It is our assessment that HCC's ability to achieve its current priorities has been significantly impacted by the absence of senior leadership over the past 12-18 months. The interim Chief Executive and Chair have had minimal engagement with Dunbia, and with a substantial number of executives, support staff and 2 key board members having departed from the organisation, the capacity of HCC to fulfil its priorities appears compromised given reports that most positions are yet to be filled.

■ **The appropriateness of HCC's purpose, priorities and activities, and whether they should be revised.**

HCC's purpose is to promote red meat and sustain productivity in the agricultural sector. However, HCC has faced significant challenges in recent years, failing to meet these objectives due to a lack of leadership and experience, along with the departure of key personnel. This has affected the organisation's ability to execute its core functions and priorities effectively.

The primary goals of HCC include promoting Welsh Red Meat both domestically and internationally and highlighting the dedication of Welsh farmers. Unfortunately, recent efforts have resulted in considerable duplication of tasks previously performed by other levy boards or major processors. HCC marketing budgets have often been allocated to events that have made little or no impact on red meat sales, suggesting that these funds could be better utilised in more established markets where Welsh Lamb and Beef are already recognised.

Moreover, HCC's engagement with farmers, particularly young farmers, has been insufficient to retain them in agriculture or attract new entrants. The decline in the sheep flock and suckler herd presents an alarming trend for the processing industry, which will have substantial repercussions in the coming months and years. Reduced availability of finished livestock means less product for processing and marketing, thereby risking the loss of established markets for Welsh Beef and Lamb.

Given the evolving challenges faced by the farming and red meat sectors in Wales and globally, it is prudent to review HCC's strategies. This is particularly pertinent in light of the financial implications of leaving the EU. Promoting red meat amidst rising consumer prices and encouraging producers to restock their farms amid future uncertainties remains a significant challenge. Maintaining a critical mass of livestock is essential to safeguard the numerous jobs within the slaughter and processing sectors in Wales.

■ **The relationship between HCC and the farming and meat processing/exporting sector, including whether HCC is delivering value for money to levy payers.**

The relationship between HCC and Dunbia as a processor, levy payer, and exporter has deteriorated. There has been minimal contact with the Senior Team within HCC over the last 12 months. The departure of staff in key roles such as Marketing and Environment has impacted their ability to advance the red meat agenda. Additionally, several very capable and hardworking support staff have left, resulting in a significantly reduced organisation that appears rudderless.

HCC's primary objectives have always been to promote the Welsh Red Meat brand domestically and internationally and to include other industry stakeholders such as Welsh Government, Farmer Unions, the FSA, among others. Historically, HCC has been successful in achieving this, but in the last 12-18 months, there has been a decline in their capacity to lead the Welsh Red Meat Industry.

Rebuilding this reputation and delivering for the levy payers will be challenging. The appointment of a new Chief Executive is a starting point. Further key appointments need to be made, and the rebuilding of the support team needs to occur at pace to regain credibility in those key areas.

We feel it is essential the HCC Board comprises non-executive directors with a comprehensive understanding of the industry, including farming, processing, environment, legislation, and marketing. The Board needs to provide the Chief Executive with strategic guidance on how the red meat levy should be spent to achieve the set goals.

Since the departure of the previous CEO, HCC's relationship with levy payers has become more distant. The numerous media articles and television documentaries about ongoing issues may suggest that it is time for a new body and brand to be established for a fresh start.

■ **The relationship between HCC and the Welsh Government, including whether the Welsh Government should have more oversight.**

We believe that HCC should remain under industry control, as it is primarily funded by the Welsh red meat levy. We recommend increased collaboration between HCC and other levy bodies such as AHDB and QMS to reduce costs and promote a unified voice for the industry.

It may also be time to consider clearly defining or possibly separating the relationship between HCC and the Welsh Government, allowing levy payers to assume greater control over any future red meat levy body.

■ **Whether HCC is the most effective vehicle for developing, promoting and marketing red meat from Wales, and whether a red meat levy is the most effective means of funding this activity.**

We believe that Hybu Cig Cymru (HCC), with appropriate terms of reference and governance supported by the Welsh Government, is the suitable vehicle for developing, promoting, and marketing red meat for and within Wales.

Nevertheless, over the past 12 months, HCC has significantly underperformed, which has been quite disappointing for our business, especially given our positive experiences with HCC in the past. It is crucial to understand why both the Welsh Government and HCC have not adequately addressed the declining agricultural economy in Wales and the increasingly concerning reduction in flock and herd numbers.

While a red meat levy and promotional body are essential for the industry, the question remains whether HCC in its current format, is properly equipped or the appropriate entity to continue this vital work, considering the negative publicity, staffing, and funding issues it has faced.

I intend to be at your offices on 27th March 2025 to provide oral evidence. However, I may have a personal conflict that I will keep you informed about.

Could you please provide me with a list of topics and points that your department would like to discuss at this meeting?

Kind Regards



Paul Edwards
Dunbia Llanybydder



Hybu Cig Cymru: Tystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer ymchwiliad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

1. Mae Hybu Cig Cymru (HCC) yn croesawu'r cyfle i roi tystiolaeth i **Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig** ar natur a manylion ei weithgareddau, ei ddarpariaeth, ei berthnasodedd a'i gyllid. Mae'r ymchwiliad yn amserol iawn yn erbyn cefndir y sefydliad yn bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu ei weledigaeth newydd ar gyfer 2026-2030 ar gyfer diwydiant cig coch Cymru.
2. **Crëwyd HCC yn 2003** drwy gyfuno buddiannau'r Comisiwn Cig a Da Byw yng Nghymru yn ogystal â swyddogaethau penodol sefydliadau eraill ar y pryd. Nod y cydgyfnerthiad hwn oedd symleiddio ymdrechion i hyrwyddo a datblygu sector cig coch Cymru
3. **Mae Prif Swyddog Gweithredol newydd yn ei le ers diwedd Ionawr 2025.** Daw'r arweinyddiaeth newydd â phrofiad helaeth (dros 20 mlynedd) ym maes prosesu a masnacheiddio cig coch o Gymru yn y DU a thramor a'i dasg yw dod â bywyd a phersbectif newydd i HCC er mwyn parhau â'i esblygiad fel sefydliad perthnasol ac ystyrlon ar gyfer dyfodol llwyddiannus a chynaliadwy diwydiant cig coch ffyniannus yng Nghymru.
4. Yn ogystal â swydd Prif Swyddog Gweithredol HCC, mae hefyd yn dal swydd **Ysgrifennydd y Cwmni a Chyfarwyddwr EID Cymru**, is-gwmni i HCC sy'n ymroddedig i olrhain symudiadau anifeiliaid o Gymru. Ariennir EID Cymru yn uniongyrchol ac yn llawn gan Lywodraeth Cymru.
5. Fel y teitl isod, er mwyn symlrwydd a chydlynid rydym wedi dewis mynd i'r afael â **phedwar pwnc allweddol yr ymchwiliad** a gyhoeddwyd.

Perfformiad HCC wrth gyflawni o ran ei flaenoriaethau presennol. Priodoldeb diben, blaenoriaethau a gweithgareddau HCC, ac a ddylid eu hadolygu.

6. Daw diben strategol HCC, **a ategir gan Fesur y Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010**, o'i ddogfen weledigaeth a ddatblygwyd gyda'r diwydiant. Mae ei amserlen yn cyd-fynd â phob tymor y Senedd. Mae'r iteriad presennol yn para hyd at ddiwedd tymor hwn y Senedd yn 2026.

7. Y weledigaeth ar gyfer diwydiant cig coch Cymru yw dyfodol arloesol a llewyrchus sy'n **cyflawni ar gyfer talwyr yr ardoll, defnyddwyr a'r gymdeithas ehangach.**
8. Mae cynaliadwyedd, premiwmeddio a llwyddiant masnach i gyd wrth wraidd y weledigaeth i ddatblygu a hyrwyddo agwedd uchelgeisiol a blaengar ar gyfer Cymru fel arweinwyr byd ym maes cynhyrchu, marchnata a gwerthu cig coch.
9. Ar adeg ysgrifennu hwn mae'r sefydliad ar y cyfnod cychwynnol o ymgysylltu â diwydiant i ddatblygu dogfen weledigaeth y diwydiant 2026-2030 sydd i fod ar waith ar gyfer tymor nesaf y Senedd.
10. Diben HCC yw datblygu, hyrwyddo a marchnata cig coch o Gymru.
11. Mae HCC yn gwneud gwaith ymchwil a datblygu, yn rhannu gwybodaeth ac yn cefnogi hyfforddiant i wella ansawdd, cynaliadwyedd, cynyddu cost-efeithiolrwydd ac ychwanegu gwerth at gynhyrchion cig coch Cymru.
12. Mae HCC yn **hyrwyddo Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru â Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig (PGI)** ac yn gweithredu fel gwarcheidwad brand Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI a'r brand GI ôl-PGI DU gyfan.
13. Yn y DU ac mewn llawer o farchnadoedd pwysig ledled y byd, mae HCC yn gweithio gydag adwerthwyr, proseswyr a gweithredwyr gwasanaethau bwyd i gryfhau cyfleoedd busnes ac yn cynnal rhaglenni hyrwyddo rheolaidd ar gyfer Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI.
14. Mae HCC yn cyflawni ei rôl o ran rhaglen o flaenoriaethau, fel y nodir yn y **Weledigaeth Cig Coch i Gymru:**
 - Gosod cig coch o Gymru fel cynnyrch premiwm
 - Datblygu cyfleoedd masnach yr UE ar gyfer cig coch Cymru
 - Optimeiddio defnydd domestig o gig coch o Gymru
 - Chwilio am ddefnyddwyr newydd ar gyfer cig coch Cymru mewn marchnadoedd byd-eang sefydledig
 - Sicrhau cyfleoedd marchnad ar gyfer cig coch o Gymru y tu allan i'r UE
 - Gwella cystadleurwydd diwydiant cig coch Cymru ac ategu rôl diwydiant cig coch Cymru mewn diogeled bwyd byd-eang
 - Cefnogi'r economi, yr amgylchedd naturiol a chymdeithas drwy gynhyrchu a phrosesu cig coch cynaliadwy yng Nghymru
 - Cynllunio o ran masnachu, cynhyrchu a phrosesu yn y dyfodol trwy gyfrwng craffu ar y gorwel a gwybodaeth am y farchnad
 - Arddangos arweinyddiaeth a chyfathrebu effeithiol i sicrhau undod diben ac eiriolaeth ragweithiol.

15. Mae gweithgareddau HCC yn niferus ac amrywiol, er mwyn bod yn gryno, **ceir isod ddetholiad o weithgareddau mwyaf perthnasol ac effeithiol HCC rhwng 2022-25** (h.y. o fewn cyfnod y weledigaeth bresennol a'r cynllun busnes ategol) wedi'u grwpio yn ôl maes y gadwyn gyflenwi y maent yn dylanwadu arno ac yn ei gefnogi.

Ffermwyr

16. Yn 2023 cwblhaodd HCC y **Rhaglen Datblygu Cig Coch** gwerth £9.2 miliwn a ariannwyd gan yr Undeb Ewropeaidd / Llywodraeth Cymru yn cynnwys tri phrosiect a gynlluniwyd i gynyddu effeithlonrwydd a chynaliadwydd o fewn y diwydiant yn ogystal â gwella canfyddiad y cyhoedd o Gig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru. Y prosiectau oedd Stoc+; y Cynllun Hyrddod Mynydd a'r prosiect Ansawdd Cig Oen Cymru:
- **Llwyddodd Stoc+ i recriwtio 374 o ffermydd ac ymgysylltu â 42 o wahanol filfeddygfeydd.** O ganlyniad, roedd 94% o'r ffermydd a gymerodd ran wedi cyflwyno neu gynyddu'r defnydd o offer rheoli iechyd a dywedodd ffermydd fu'n cymryd rhan fod eu heffeithlonrwydd o ran iechyd anifeiliaid wedi cynyddu o 64% cyn cyrchu'r cymorth i 93%. Mae'r canlyniadau a'r hyn a ddysgwyd o Stoc+ wedi'u trosglwyddo i Lywodraeth Cymru ac wedi cefnogi datblygiad y Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid a fydd yn rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd.
 - Cefnogodd **y Cynllun Hyrddod Mynydd** gyfanswm o 63 o ddiadelloedd. Roedd dadansoddiad o'r gwaith yn awgrymu mai gwerth cronol y gwelliant genetig a gyflawnwyd drwy'r cynllun yn y dyfodol mewn diadell o 300 o ddefaid os yw'n cael ei gynnal yw: £9,235 ym mlwyddyn pump a £60,403 ym mlwyddyn deg. Arweiniodd llwyddiant y Cynllun Hyrddod Mynydd at Raglen Geneteg Defaid Cymru Cyswllt Ffermio sydd wedi adeiladu ar seiliau cadarn y gwaith gwreiddiol.
 - Nod **Prosiect Ansawdd Cig Oen Cymru** oedd datblygu glasbrint ar gyfer y gadwyn gyflenwi er mwyn sicrhau y byddai cynhyrchu a phrosesu Cig Oen Cymru yn cyrraedd y lefelau uchaf posibl o ran ansawdd a chysondeb. Amlygodd y canlyniadau fod defnyddwyr yn gwerthfawrogi rhinweddau Cig Oen Cymru. Mae'r negeseuon hyn wedi'u lledaenu drwy'r proseswyr ar draws y gadwyn gyflenwi gyda chefnogaeth HCC.
 - Cynlluniwyd y tri phrosiect gyda'i gilydd i **atgyfnerthu ac ategu rhinweddau a gwerthoedd brandiau Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI.** Cyflawnwyd hyn trwy weithio'n agos gyda'r gadwyn gyflenwi a Llywodraeth Cymru i ddeall ble roedd yr heriau a ble gellid gwneud gwelliannau.
17. Mae digwyddiadau **Dewis Da Byw HCC** yn helpu ffermwyr i ddeall sut i wneud y gorau o'u cynhyrchiant – a'r enillion – drwy fodloni manylebau'r farchnad. Ers mis Mawrth 2023, mae HCC wedi cynnal dros 20 diwrnod gwahanol gan ladd-dai ledled Cymru. Yn ystod y digwyddiadau hyn mae HCC hefyd yn cyfleu negeseuon allweddol am oes silff a'i bwysigrwydd wrth chwilio am farchnadoedd newydd.

18. Mae HCC yn parhau i **sicrhau bod archwiliadau'n sail i uniondeb** brandiau Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI. Mae HCC yn defnyddio'r wyddor fforensig ddiweddaraf (Oritain) sydd ar gael i gefnogi'r system olrhain, un o ychydig o gynlluniau PGI sydd â'r lefel hon o sicrwydd.
19. Dros y pum mlynedd diwethaf mae HCC wedi ceisio datblygu perthynas waith agosach gyda'r rhai sy'n darparu'r rhaglen **Cyswllt Ffermio** a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn wedi arwain at HCC yn cyflwyno mewn nifer o ddigwyddiadau a chyfarfodydd Cyswllt Ffermio. Yn hydref 2024, roedd HCC yn bresennol ac â gwybodaeth ar gael ym mhob digwyddiad cig coch 'Ein Ffermydd' a drefnwyd gan Cyswllt Ffermio. Mae gan HCC hefyd fewnbn strategol a throsolwg o'r rhaglen drwy ei bresenoldeb a'i gynrychiolaeth ar Fwrdd Cynghori Strategol Cyswllt Ffermio.
20. Rhan allweddol o gymorth cynhyrchwyr a phroseswyr HCC yw dylanwadu a datblygu gwaith partneriaeth gyda sefydliadau eraill. Nod hyn yw galluogi mwy o ddarpariaeth traws-sector a sicrhau negeseuon effeithiol a chyson i'r diwydiant. Yn 2023/24 cynrychiolodd HCC y sector cig coch yng Nghymru mewn dros **300 o gyfarfodydd yn ymwneud â phynciau fel iechyd anifeiliaid, newid hinsawdd, gwelliant genetig ac ymchwil a datblygu.**

Proseswyr a'r sector allforio

21. Mae HCC yn gweithio gyda phroseswyr ac allforwyr i gael a thyfu mynediad i'r farchnad, enghraifft o hyn oedd swper pwrrpasol ym mis Chwefror 2025 yn llysgenhadaeth Dubai yn arddangos Cig Oen Cymru. Mae digwyddiadau o'r math hwn wedi **helpu i hwyluso dechrau gwerthu** Cig Oen Cymru gydag adwerthwr premiwm yn yr Emiradau Arabaidd Unedig a Saudi Arabia yn 2024.
22. Mae gan y sefydliad **bresenoldeb mewn sioeau masnach allforio rhyngwladol yn rheolaidd**, er mwyn arddangos Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru a hwyluso sefydlu cwsmeriaid newydd mewn marchnadoedd presennol a newydd yn ogystal â chryfhau rhai presennol. Mae enghreifftiau dros y blynyddoedd diwethaf yn cynnwys:
 - Gulfood-Dubai (2022; 2023; 2024; 2025)
 - Foodex-Tokyo (2024; 2025)
 - SIAL-Paris(2022; 2024)
 - Summer Fancy Foods-New York (2024)
 - Anuga-Cologne (2021; 2023)
 - Tutto Food-Milan (2024)
 - SIRHA-Lyon (2022; 2023)
 - AMC-USA (2023; 2024)
 - Tavola-Belgium (2022)
 - RC-Toronto (2021)

23. Wedi'i hysgogi gan agosrwydd a galw, **marchnad yr Undeb Ewropeaidd yw'r brif safle allforio ar gyfer cynnyrch Cymreig o hyd**. Mae HCC yn ceisio tyfu a chynnal y marchnadoedd hyn trwy ymgysylltu parhaus ar wahanol lefelau o'r gadwyn gyflenwi. Er enghraifft, mae marchnad fanwerthu'r Almaen yn hynod o anodd cael mynediad iddi ac mae angen deallusrwydd lleol a chyfarfodydd wyneb yn wyneb i ennill a chynnal busnes. Ar ôl blynyddoedd o ddyfalbarhad gan gynrychiolydd HCC yn y farchnad, llwyddom i hwyluso mynediad at ddau adwerthwr bwyd premiwm Almaenaidd. Yn yr un modd, mae gan HCC hefyd gynrychiolaeth barhaol yn y farchnad yn yr Eidal, a Gwledydd Corfforaeth y Gwlff.
24. Mae HCC yn ceisio arddangos systemau cynhyrchu Cymru, sef cenhadaeth fewnol yn 2024 gydag un o'n cyfrifon brand Cig Oen Cymru mwyaf, **a daeth HCC â 20 o brif gigyddion yr Eidal a rheolwyr gwerthu ardaloedd draw i brofi'r ffordd Gymreig**. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad parhaus i gynnal cyfrifon allweddol mewn marchnadoedd strategol bwysig.
25. Mae HCC yn ceisio adeiladu ar ei berthynas a'i gefnogaeth i adwerthwyr annibynnol, gwasanaethau bwyd a chigyddion yn parhaus. **Mae gan Glwb Cigyddion HCC aelodaeth sefydlog (120 o aelodau ar hyn o bryd)**, ar adeg pan fo pwysau ar y sector wedi cynyddu dros y pum mlynedd diwethaf. Mae gan aelodau'r Clwb Cigyddion fynediad at wybodaeth, cardiau ryseitiau a deunydd Man Gwerthu trwy gydol y flwyddyn.
26. Mae gan HCC aelod o staff sy'n **canolbwyntio'n bennaf ar gysylltu â busnesau bach a chanolig** (e.e. cigyddion, lladd-dai, ffatrioedd torri) ar ôl giât y fferm yn y gadwyn gyflenwi. Mae hyn yn sicrhau bod HCC yn wybodus am unrhyw faterion neu bryderon a wynebir. Mae HCC hefyd wedi ceisio nodi partion allanol sydd â mynediad at arian Llywodraeth Cymru a all gefnogi busnesau bach a chanolig.

Defnyddwyr ac adwerthwyr

27. Yn dilyn buddsoddiad dros sawl blwyddyn mewn ymgyrchoedd hysbysebu teledu wedi'u targedu, ledled Cymru a Lloegr, mae ymwybyddiaeth o frand Cig Oen Cymru wedi cynyddu'n sylweddol o **39% i 72% (2022 – 2024)**. Gwiriwyd hyn yn annibynnol gan gwmni ymchwil marchnad blaenllaw.
28. Yn 2024/25, bu HCC yn gweithio mewn partneriaeth ag adwerthwr blaenllaw i dargedu defnyddwyr cymaint â phosibl, drwy gerdyn teyrngarwch a Sky AdSmart. Llwyddodd yr ymgyrch i dargedu **cartrefi penodol nad oedd wedi prynu brand Cig Oen Cymru** dros y chwe mis blaenorol. Y twf a sicrhawyd o'r gweithgarwch hwn oedd cynnydd mewn gwerthiant o **24% yng Nghymru a 21% yn Lloegr**. Yn arwyddocaol, sicrhawyd 50% o'r trosiad gan ddefnyddwyr a oedd wedi bod yn prynu brandiau cystadleuwyr cyn hynny.
29. **Mewn partneriaeth ag adwerthwr premiwm mawr ledled y DU**, rhoddodd HCC ymgyrch ddigidol wedi'i thargedu ar waith yn 2023/24 a oedd yn hyrwyddo Cig Oen Cymru o fewn radiws milltir o'r holl siopau yn Lloegr, gan sicrhau cynnydd o 10% yn nifer yr ymweliadau â'r siopau hynny.

30. Yn 2023/24, cynhaliwyd ymgyrch Cig Eidion Cymru amlgyfrwng integredig. Canfu cwmni ymchwil marchnad blaenllaw fod **ymwybyddiaeth o frand Cig Eidion Cymru wedi codi o 70% i 85% a bod y tueddiad i brynu wedi cynyddu o 44% i 65%**. Cyrhaeddodd yr ymgyrch dros hanner poblogaeth Cymru.
31. O'r **ymchwil defnyddwyr a wnaed** rydym wedi gweithio gyda chogyddion a dylanwadwyr amlycaf y DU - gan gynnwys Francesco Mazzei, Owen Morgan, a Chris Roberts - i arddangos ein cynnyrch i ddefnyddwyr mewn ffordd ddeniadol ac effeithiol.
32. Mae cydweithio â'r llysgenhadon hyn wedi ein galluogi i gyrraedd eu cynulleidfaoedd nhw yn ogystal â'n cynulleidfaoedd ni. Ar 1 Awst 2022 **cyrhaeddodd tua hanner miliwn o ddefnyddwyr** gyda fideo o Chris Roberts a Francesco Mazzei yn coginio ar fferm fynydd yn Eryri. Dyma enghraifft o HCC yn defnyddio cogyddion dylanwadol i ategu a chyfathrebu premiwmieddio cig coch Cymru.
33. Mae HCC yn **cydweithio â chyrff ardoll eraill** ac undebau ffermio ar ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn gan gynnwys Wythnos Cig Eidion Prydain ac Wythnos Caru Cig Oen ('Make it Lamb' / 'Cig Oen – Beth Amdani'). Yn 2024 ar draws yr holl gyfrifon cymdeithasol gwelodd yr ymgyrch gyrhaeddiad o bron i 2 filiwn o ddefnyddwyr ar draws y pedwar corff ardoll mewn wythnos (1 - 7 Medi 2024).
34. Mae HCC yn cefnogi ei gynhyrchwyr **Porc mewn cyfnodau o weithgarwch wedi'u targedu**. Yn 2024 gwelodd ein hymgyrch Porc dros 3 miliwn o argraffiadau ar sianeli'r cyfryngau cymdeithasol a chwiliadau Google gyda dros 27,000 clic a chyfradd clicio i hysbysebu chwiliad o 14% sy'n uwch na chyfartaledd y diwydiant o 6%.

Polisi a chynaliadwyedd

35. Mae HCC wedi mabwysiadu safbwynt arweinyddiaeth gref ac wedi cymeradwyo system cynhyrchu cig coch Cymru drwy ei raglen **'Y Ffordd Gymreig'**. Mae gwaith ymchwil dros y pedair blynedd diwethaf wedi canolbwyntio ar y pedwar metrig amgylcheddol – bioamrywiaeth, carbon, dŵr, ac iechyd y pridd – sy'n adlewyrchu cyfanswm ôl troed amgylcheddol 'Y Ffordd Gymreig' o gynhyrchu cig coch. Ymhlith yr uchafbwyntiau allweddol mae:
- HCC yn cyhoeddi **gwaelodlin bioamrywiaeth** yn 2023
 - Comisiynu **Dadansoddiad Cylch Bywyd** yn 2024 ar gyfer Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru i ddeall allyriadau nwyon tŷ gwydr cysylltiedig o'r fferm i ragbecynnu yn y prosesydd. Daeth data cwestiynu o 373 o ffermydd yng Nghymru i'r casgliad bod Gwartheg a Defaid Cymru yn cael eu cynhyrchu i ddwysedd carbon sylweddol is na dewisiadau amgen y DU a rhyngwladol.
 - Disgwylir canlyniadau **astudiaeth waelodlin defnydd dŵr a gomisiynwyd gan HCC yn 2025**. Fel rhan o'r gwaith o sicrhau tystiolaeth i ddangos cynaliadwyedd systemau cynhyrchu unigryw yng Nghymru, mae HCC yn ymgysylltu â ffermwyr ledled Cymru i

gymryd rhan mewn arolwg byr i fesur ffynhonnell a chyfaint y dŵr a ddefnyddir ar gyfer cynhyrchu cig coch.

- Fel rhan o ymrwymiad HCC i fetrig amgylcheddol iechyd pridd, **cydweithio â phartneriaid yn y sector**, AHDB a nod systemau rheoli ansawdd o osod gwaelodlin amgylcheddol i sefydlu carbon net ar ffermydd, gan ystyried y carbon sy'n cael ei storio yn y pridd, ynghyd â gwrychoedd a choed, yn ogystal ag allyriadau nwyon tŷ gwydr a dal a storio.
- Mae HCC yn parhau i gydweithio ag AHDB a systemau rheoli ansawdd ar **ffrydiau gwaith cynaliadwyedd cyn-gystadleuol**, a phartneriaid eraill yn y sector yn y DU i helpu i atgyfnerthu'r neges gynaliadwyedd, a chynnwys y Map Trywydd Cig Eidion a Chig Oen a arweinir gan y diwydiant – i friff sero net. Yn ogystal, mae gwaith yn parhau ar brosiectau gwella genetig sy'n arwain y diwydiant sy'n canolbwyntio ar effeithlonrwydd ac enillion amgylcheddol fel y rhaglenni **RamCompare** a **Breeding Better**.

36. Er mwyn cefnogi'r diwydiant, a sicrhau bod arian cyfyngedig yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol, mae HCC yn gyfranogwyr ac yn gyfranwyr mewn **nifer o brosiectau ymchwil a datblygu allanol**. Lle bo modd, bydd HCC yn gweithio gyda chyrff ardoll eraill ar brosiectau ledled y DU fel **RamCompare** a **GrasscheckGB**. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae HCC hefyd wedi bod yn aelod gweithgar o weithgarwch ymchwil a wnaed drwy'r **Hyb Defnydd Tir Net Sero (LUNZ)** a **rhaglen Bridio Gwell AFN+**. Mae'r gweithgarwch hwn yn ceisio ysgogi a llywio ymchwil arloesol i gefnogi'r sector cig coch yn y dyfodol.
37. Mae gan HCC gylch gwaith i gefnogi'r diwydiant drwy ymchwil a datblygu. Mae cydweithrediadau ymchwil gyda sefydliadau academiaidd, gan gynnwys Prifysgolion Aberystwyth a Bangor, wedi canolbwyntio ar optimeiddio rheolaeth glaswelltir ac effeithlonrwydd bridio da byw. Atgyfnerthwyd y partneriaethau hyn ymhellach, tua 2022-23, drwy recriwtio pedair **ysgoloriaeth ymchwil PhD**, pob un yn ymchwilio i feysydd hollbwysig a fydd yn llywio dyfodol y diwydiant. Mae'r berthynas gryfach hon rhwng HCC, y sector amaethyddol, a phrifysgolion yng Nghymru yn tanlinellu'r ymrwymiad parhaus i ddatblygu ymchwil sy'n cefnogi arferion cynaliadwy a thwf y diwydiant.
38. Mae HCC yn cynnig **ysgoloriaeth flynyddol** i ymgeiswyr a gyflogir yn niwydiant cig coch Cymru. Mae ysgolorion blaenorol wedi gwneud cyfraniad parhaus i'r diwydiant tra hefyd yn lledaenu mewnwelediad gwerthfawr i bwnc eu hysgoloriaeth. Mae'r ysgolor presennol yn edrych ar wella effeithlonrwydd buchod sugno.
39. Astudiodd y **prosiect Ansawdd Cig Oen Cymru** arferion ym mhob cam o'r gadwyn gyflenwi i sefydlu glasbrint o ansawdd a chysondeb blas. Blasodd cyfanswm o 1,920 o ddefnyddwyr ar draws y DU 13,440 o samplau o Gig Oen Cymru yn ystod y prosiect, gan roi glasbrint credadwy a chadarn i'r diwydiant o ddewis defnyddwyr. Bu'r prosiect hefyd yn astudio manteision maethol cig oen, adnodd gwerthfawr i'r sector i dynnu sylw at bwysigrwydd cig oen, a chig coch ehangach, mewn diet iach a chytbwys.

40. Datblygodd y **prosiect BeefQ**, a ariennir hefyd gan Raglen Datblygu Gwledig yr Undeb Ewropeaidd / Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad ag IBERS ym Mhrifysgol Aberystwyth ei nod o brofi systemau cynhyrchu a phrosesu Cig Eidion Cymru gan ddefnyddio system raddio Meat Standards Australia (MSA). Roedd HCC yn aelod gweithgar o'r prosiect gan hwyluso diwrnodau hyfforddi a rhan proseswyr yn y gwaith pwysig.
41. Cafodd canfyddiadau **Prosiect Ansawdd Cig Oen Cymru** eu harddangos yng Nghymdeithas Brydeinig Gwyddor Anifeiliaid - '*The Role of Livestock in our Ecosystems and Economy*'.

Ymgysylltu ag iechyd ac addysg

42. Mae HCC yn cefnogi **amrywiaeth o weithgareddau datblygu iechyd ac addysg**. Fel rhan o'i raglen ymgysylltu flynyddol â gweithwyr iechyd proffesiynol, bu HCC yn arddangos i dros 600 o fydwragedd, cynrychiolwyr Coleg Brenhinol y Nyrsys, a darlithwyr gyda chyfanswm cyrhaeddiad o dros 20,000 o gleientiaid/cleifion i arddangos buddion iechyd cig coch ar gyfer diet cytbwys (yn 2024/25). I ategu'r gwaith hwn yn ddiweddar lansiodd HCC e-fwletin chwarterol a anfonir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol am fanteision cig coch.
43. Mae HCC yn **ymgysylltu'n barhaus â gweithwyr addysgu proffesiynol** i hysbysu ac addysgu ar wybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth am gig coch, bwyd a ffermio. Mae ymgysylltu'n cynnwys presenoldeb mewn digwyddiadau allweddol fel y Sioe Addysg Genedlaethol yn 2024-25. I gyd-fynd â'r math hwn o weithgarwch mae e-fwletin chwarterol parhaus ar lefel ysgolion cynradd ac uwchradd.
44. Yn 2024, lansiodd HCC **Cig-weithio**, rhaglen sy'n ceisio datblygu gwybodaeth a phrofiad y genhedlaeth nesaf o strwythur y diwydiant a chynhyrchu cig coch o'r fferm i'r fforc. Fel rhan o'r rhaglen mae aelodau'n gweithio ar y cyd ar brosiect sy'n canolbwyntio ar y diwydiant, gyda'r nod o gynhyrchu gwybodaeth a data newydd i lywio'r diwydiant cyfan.

Cyfathrebu

45. Mae HCC yn **casglu a lledaenu ymchwil marchnad a gwybodaeth** i gadwyn gyflenwi cig coch Cymru am dueddiadau defnyddwyr, patrymau'r farchnad a heriau'r dyfodol. Cyflawnir hyn trwy ei ganolbwynt gwybodaeth marchnad fewnol a hefyd defnyddio gwybodaeth a data allanol. Mae'r wybodaeth yn cael ei lledaenu ar wefan HCC, mewn cyfarfodydd, gweminarau ac mewn cyhoeddiadau fel y '*Llyfr Bach o Ffeithiau Cig*' a gyhoeddir yn flynyddol. Mae enghreifftiau'n cynnwys:
- **E-fwletin misol y farchnad â 3,000 o danysgrifwyr**, yn cynnwys eitemau newyddion ar ddatblygiadau yn y diwydiant. Yn ogystal, mae HCC yn darparu diweddiariad

wythnosol am y diwydiant i'r tanysgrifwyr â phrisiau wythnosol ac eitemau newyddion sy'n torri ar gyfer y diwydiant.

- Mae **e-fwletin misol sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr ar gyfer 30,000 o danysgrifwyr** hefyd yn cael ei gynhyrchu yn nodi pam a ble i brynu Cig Oen Cymru. Mae e-fwletin tebyg hefyd yn bodoli ar gyfer Cig Eidion Cymru a Phorc Cymru.
- Mae gan HCC gyfres o **wefannau pwrpasol, gyda chyfrifon cyfryngau cymdeithasol ategol**, er mwyn cyfathrebu â defnyddwyr, gweithwyr ieuchyd ac addysg proffesiynol, a masnach. Mae'r rhain yn cynnwys: eatwelshlambandwelshbeef.com/cy/hafan/; redmeathub.wales/gb/cy/; welshlambandbeef.com/gb/cy/; porcblasus.cymru/cy/home/; www.hybucig.cymru. Yr uchafbwynt yw bod gan ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol gyfanswm o 130,000 o ddilynwyr.

46. Yn ogystal, mae HCC yn cynnal gweithgarwch eiriolaeth a chyfathrebu amddiffyn yn rheolaidd i liniaru effaith cyhoeddusrwydd negyddol ynghylch cig coch. Fel enghraifft:

- Mae HCC, yn aml ar y cyd â chyrrff ardoll eraill, yn mynd i'r afael â materion amrywiol lle mae cig coch ac elfennau amrywiol ei gadwyn gyflenwi yn cael eu camliwio yn y cyfryngau. Mae hyn wedi arwain at newid yn y sylw gan rai cyfryngau y profwyd eu bod yn anghywir yn eu hadroddiadau. **Mae HCC yn ceisio sicrhau bod llais y diwydiant yn cael ei gynrychioli o fewn y cyfryngau** trwy ymgysylltu rhagweithiol, ac weithiau adweithiol.
- **O fis Medi 2024 hyd heddiw**, mae HCC wedi cronni cyfanswm o dros 60 o erthyglau cadarnhaol yn y wasg genedlaethol ar destun cig coch o Gymru gan gyrraedd cynulleidfa o 2.5 miliwn ar gyfartaledd fesul eitem.
- Ar ddiwedd 2024, comisiynodd HCC **astudiaeth ymchwil i arferion bwyta cig coch defnyddwyr** i amlygu'r bwlch gwybodaeth o'i fanteision fel rhan o ddiet cytbwys. Arweiniodd hyn at ddarlledu 13 eitem gydag amcan cyrhaeddiad o tua 2 filiwn o ddefnyddwyr.

47. Cafodd gweledigaeth, cynllun ac amcanion HCC eu hadolygu a'u dilysu yn ystod hydref 2022. Yn anochel, wrth i amser fynd heibio ac wrth i'r byd newid, mae perygl y bydd ei berthnasedd yn lleihau. Dyna pam, fel rhan o'i gylchred safonol, mae'r sefydliad ar hyn o bryd yn cynnal ymgynghoriad, ymchwil a synthesis trylwyr o **weledigaeth newydd addas ar gyfer y cyfnod 2026 – 2030**. Disgwylir i'r broses hon gael ei chwblhau erbyn diwedd 2025 gyda'r bwriad o sicrhau cymeradwyaeth a chyllid ar gyfer gweithredu yn barod i gychwyn erbyn Ebrill 2026.

Y berthynas rhwng HCC a'r sector ffermio a phrosesu cig/allforio gan gynnwys a yw HCC yn rhoi gwerth am arian i dalwyr yr ardoll.

48. Mae tîm HCC mewn **cysylltiad rheolaidd â'i dalwyr ardoll, rhanddeiliaid ehangach a chwsmeriaid**, i nodi heriau a chyfleoedd y diwydiant yn gyson, yn cefnogi, arwain a myfyrio ar ei flaenoriaethau a'i weithgareddau ei hun.
49. Mae'r rhyngweithiadau rheolaidd hyn yn **hollbwysig i gefnogi rôl HCC fel y sianel rhwng y diwydiant a Llywodraeth Cymru** sy'n cynrychioli'r diwydiant, gan lywio a herio polisi'r llywodraeth.
50. Ymhlith y sefydliadau allweddol y mae **cyswllt rheolaidd â nhw ar bob lefel** mae Undeb Amaethwyr Cymru (FUW), Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru (NFU Cymru), Cymdeithas Ddefaid Genedlaethol Cymru (NSA), Cymdeithas Arwerthwyr Da Byw (LAA), Cynhyrchwyr Cig Oen a Chig Eidion Cymru (WLBP), Cymdeithas Proseswyr Cig Prydain (BMPA), Y Gymdeithas Cyflenwyr Cig Annibynnol (AIMS), Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB), Quality Meat Scotland (QMS), Livestock & Meat Commission for Northern Ireland (LMC), Pilgrim's, Dunbia, Kepak, Farmers Fresh a phroseswyr mewnbyn is eraill a gwerthwyr cig coch o Gymru.
51. Isod, amlinellir y **math o weithgarwch ymgysylltu a gynhelir yn rheolaidd** gyda ffermwyr a'r sector prosesu/allforio cig.
- **Cyfarfodydd un-i-un rheolaidd:** Mae HCC yn cynnal cyfarfodydd un-i-un yn ystod y flwyddyn gyda llawer o randdeiliaid. Mae HCC yn nodi y bydd y newidiadau mewn arweinyddiaeth yn ystod y 18 mis diwethaf wedi cael effaith ar y cyfarfodydd hyn. Un o flaenoriaethau cyntaf y Prif Weithredwr newydd ar ôl dechrau ar ddiwedd mis Ionawr 2025 fu ailgysylltu ar sail un-i-un ar lefel uwch â'r holl grwpiau talwyr ardoll allweddol.
 - **Cyfarfodydd un-i-lawer o bryd i'w gilydd:** Mae HCC yn trefnu ac yn mynychu cyfarfodydd un-i-nifer rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd cyffredinol blynyddol megis cyflwyno i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol NSA Cymru 2025; a chyflwyniadau diweddar y proseswyr ledled Cymru i wrando ar bryderon y diwydiant a chyflwyno gweithgarwch HCC yn y farchnad.
 - **Presenoldeb ar gyrff cynrychioliadol allweddol:** Mae HCC yn cymryd rhan mewn pwyllgorau trefniadaeth talwyr yr ardoll i roi mewnbyn a gwrandao ar bryderon y diwydiant. Mae enghreifftiau arwyddocaol yn cynnwys HCC yn mynychu Pwyllgor Bryniau a Da Byw FUW, Pwyllgor Da Byw NFU Cymru, a chyfarfodydd rhanbarthol NSA Cymru.
 - **Presenoldeb mewn sioeau amaethyddol allweddol:** megis presenoldeb blynyddol yn Sioe Frenhinol Cymru a Ffair Aeaf RWS sy'n gweithredu fel llwyfan cyfathrebu rhwng HCC, rhanddeiliaid, cwsmeriaid, a'r cyhoedd.

- **Cynhadledd flynyddol HCC:** darparu ymgysylltiad dwy ffordd â rhanddeiliaid a'r diwydiant ehangach ar ddatblygiad, materion a thueddiadau'r diwydiant. Yn ogystal â phrif siaradwyr arbenigol, mae'r gynhadledd hefyd yn cynnwys eitem reolaidd ar yr agenda '*Holi Bwrdd HCC*' gyda'r nod o roi cyfle i dalwyr yr ardoll gwestiynu pob agwedd ar weithgareddau HCC.
- **Diweddariadau am y diwydiant:** Mae HCC yn darparu diweddariadau rheolaidd i'r diwydiant fel e-fwletinâu misol y farchnad gyda nifer o eitemau ar ddatblygiadau ac ystadegau'r diwydiant. Yn ogystal â diweddariadau wythnosol gan y diwydiant gyda phrisiau wythnosol tymor byrrach a newyddion sy'n torri. Yn ogystal, mae HCC yn cyhoeddi datganiadau i'r wasg â gwybodaeth berthnasol i'r diwydiant ar gyfer cyhoeddiadau masnach allweddol yn rheolaidd (dros 100+ o ddatganiadau yn 2024/25).
- **Fforymau polisi strategol ehangach:** er mwyn dylanwadu ar bolisi ar lefel genedlaethol, DU a byd-eang, mae HCC yn aelod gweithgar o nifer o fforymau polisi cynrychioliadol gan gynnwys Bord Gron Gweinidogol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy; Panel Adolygu Atafaelu Carbon a Grŵp Swyddogion AU; Grŵp Cynghori Polisi Masnach; Bord Gron Fyd-eang Cig Eidion Cynaliadwy a'r Gynghrair Cig Fyd-eang.

Darparu gwerth am arian

52. Mae HCC yn credu ei fod yn **darparu gwerth da am arian i dalwyr yr ardoll gyda chyllideb gyfyngedig sy'n prinhau** ar gyfer cwmplas eang.
53. Cododd gwerth allbwn amaethyddol cyfanredol tua £120 miliwn i tua £2.2 biliwn yn 2023. Arhosodd gwerth allbwn o wartheg yn uchel ar £572 miliwn. Dangosodd gwerth cynnyrch o ddefaid gynnydd pellach o £57 miliwn (neu 21%) i ychydig o dan £325 miliwn.
Amcangyfrifir bod allbwn gros o wartheg a defaid yn 40% o werth allbwn amaethyddol yng Nghymru.
54. **Ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25, mae HCC yn cael ei ariannu'n gyfan gwbl gan gronfeydd talwyr yr ardoll hyd at tua £4.3 miliwn** (gan gynnwys £1.3m o Ddychweliad Ardoll). I waethygu'r pwysau ar gyllid HCC, ym mis Ebrill 2024 cafodd newid i statws TAW y sefydliad effaith sylweddol ar ei bŵer prynu. Dyfarnodd CThEF fod ardollau HCC y tu allan i gwmpas TAW, yn weithredol o 1 Ebrill 2024. Cyn y dyddiad hwn roedd HCC bob amser wedi codi TAW ar anfonebau ardoll ac wedi adennill TAW mewnbwn ar yr holl nwyddau a gwasanaethau y talwyd amdanynt gan yr ardoll. Amcangyfrifwyd bod yr effaith net i HCC oddeutu £400,000 na ellir ei adennill mwyach ar y nwyddau a'r gwasanaethau y mae'n eu prynu ar ran talwyr yr ardoll. Nid ni yw'r unig gorff ardoll yr effeithir arno fel hyn gyda'r newid yn cael ei weithredu gyntaf gyda AHDB ac wedi hynny gyda HCC a QMS o fis Ebrill 2024.

55. Mae'r cronfeydd hyn i fod i ddatblygu a hyrwyddo cig coch Cymru ac mae'n **cyfateb i tua 0.6% o werth y mewnbwn (2024 – ar draws y tair rhywogaeth)**. O ystyried cwpas eang gweithgareddau HCC fel sy'n ofynnol gan ei gylch gwaith, mae hyn yn lefel sylweddol is o fuddsoddiad o'i gymharu â diwydiannau eraill nwyddau defnyddwyr. Byddai cwmnïau brand fel arfer yn buddsoddi 5% i 10% o refeniw mewn marchnata yn unig a dim ond un o feysydd cwpas HCC yw hynny.
56. O ganlyniad i'r uchod mae'n rhaid i HCC fod yn **ddetholus ac yn ofalus** gyda'r gweithgareddau a'r mentrau a gefnogir ar sail pwysigrwydd a photensial i'w cyflawni.

Y berthynas rhwng HCC a Llywodraeth Cymru, gan gynnwys a ddylai Llywodraeth Cymru gael mwy o oruchwyliaeth.

Y berthynas rhwng HCC a Llywodraeth Cymru

57. Mae HCC, a grëwyd yn 2003, yn gwmni preifat cyfyngedig drwy warant sy'n eiddo'n gyfan gwbl i Lywodraeth Cymru i ddatblygu, hyrwyddo a marchnata cig coch Cymru. Mae *Mesur y Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010 (y Mesur)* yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyflawni'r amcanion statudol canlynol:
- Cynyddu effeithlonrwydd neu gynhyrchiant yn y diwydiant cig coch
 - Gwella marchnata yn y diwydiant hwnnw
 - Gwella neu ddatblygu gwasanaethau y mae'r diwydiant yn eu darparu neu'n gallu eu darparu i'r gymuned; a
 - Gwella'r ffyrdd y mae'r diwydiant yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy.
58. Mae'r Mesur yn nodi yn Atodlen 1 swyddogaethau statudol Gweinidogion Cymru at ddiben hybu'r amcanion. Mae'r Mesur yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddirprwyo eu swyddogaethau o dan y Mesur. **Mae Gweinidogion Cymru wedi arfer eu pŵer ac wedi dirprwyo swyddogaethau o dan y Mesur i HCC.**
59. Mae adran 7 y Mesur yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddirprwyo eu swyddogaethau o dan y Mesur. Roedd **cytundeb dirprwyo a wnaed rhwng Gweinidogion Cymru a HCC ar 28 Mawrth 2008 ('y Cytundeb Dirprwyo')** wedi dirprwyo'r holl swyddogaethau a nodir yn y Mesur i HCC, sy'n caniatáu casglu'r ardoll ar y pwynt cigydda yng Nghymru neu'r allforio ac sy'n cyflawni'r swyddogaethau statudol mewn perthynas â diwydiant cig coch Cymru.
60. **Yn sail i'r berthynas mae dogfen fframwaith cyfreithiol sy'n nodi'r fframwaith eang y mae HCC yn gweithredu oddi mewn iddo**, yn manylu ar y telerau a'r amodau y caiff Gweinidogion Cymru ddarparu adnoddau i HCC oddi tanynt, ac yn diffinio rolau a chyfrifoldebau Gweinidogion Cymru a HCC yn ogystal â'r berthynas rhyngddynt. Mae

erthyglau cysylltiadau HCC yn amlinellu strwythur rheolaethol a gweinyddol a chyfrifoldebau HCC.

61. Gweinidogion Cymru sy'n pennu amcanion strategol HCC yn ei lythyr cylch gwaith. **Rhaid i HCC nodi sut y bydd yn cyflawni ei amcanion strategol yn ei gynllun busnes** a gymeradwyir gan y gweinidogion.
62. **Gwneir penodiadau i Fwrdd HCC gan Weinidogion Cymru** yn unol â chod ymarfer y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.
63. **Mae'r Bwrdd yn cynrychioli talwyr yr ardoll sy'n ffermwyr a phroseswyr ac eraill sy'n meddu ar sgiliau sy'n berthnasol i ddatblygiad y sefydliad yn y dyfodol.** Mae'r gynrychiolaeth bresennol ar y Bwrdd yn cynnwys talwyr yr ardoll, marchnata, llywodraethu corfforaethol, y gadwyn gyflenwi a chynaliadwyedd.
64. Mae'r Bwrdd yn cynnwys 11 cyfarwyddwr anweithredol (gan gynnwys y Cadeirydd). Mae dau bwyllgor statudol a gweithgor hefyd yn bodoli i gynghori'r bwrdd ar amrywiol swyddogaethau a ffrydiau gwaith.
65. **Mae Bwrdd HCC yn atebol i Lywodraeth Cymru** am gyflawni'r amcanion diffiniedig, sicrhau llywodraethu corfforaethol o ansawdd uchel ac am oruchwyllo gweithrediaeth y cwmni, gan gynnwys rôl y Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu'r cwmni. Mater i fwrdd HCC yn bennaf yw llywodraethu a'r drefn rheolaeth fewnol.
66. Mae HCC yn gyfrifol am **gynnal swyddogaethau archwilio, rheolaeth fewnol a llywodraethu cadarn** i sicrhau bod ei weithrediadau'n effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol. Mae'r swyddogaeth archwilio'n hanfodol ar gyfer adolygu perfformiad ariannol, sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau perthnasol, a rhoi sicrwydd bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol. Mae rheolaethau mewnol wedi'u cynllunio i ddiogelu asedau, lliniaru risgiau, a sicrhau cywirdeb adroddiadau ariannol a gweithgareddau gweithredol. Mae fframwaith llywodraethu HCC yn cynnwys rolau a chyfrifoldebau clir, systemau adrodd rheolaidd, a glynu at egwyddorion llywodraethu da, gan sicrhau bod y sefydliad yn gweithredu'n dryloyw ac yn unol â disgwyliadau'r cyhoedd a pholisïau'r llywodraeth. Mae'r swyddogaethau hyn gyda'i gilydd yn cefnogi amcanion strategol HCC ac yn cyfrannu at ei iechyd a chynaliadwyedd ariannol parhaus.
67. **Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd y cwmni** yn unol â pharagraff 18(1) o atodlen 8 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.
68. Mae rôl Llywodraeth Cymru felly'n canolbwyntio ar roi cyfrif am gyflawni amcanion a rheoli'r berthynas rhyngddi a HCC. Mae'r Prif Weithredwr yn mynychu cyfarfodydd bwrdd i ffurfio'r cyswllt rhwng llywodraethu a rheoli, gydag aelodau eraill o dîm arwain HCC hefyd yn bresennol.

69. **Yn ymarferol, y ffordd orau o ddisgrifio ehangder a dyfnder ymwneud Llywodraeth Cymru â HCC** yw fel a ganlyn:

- Penodi aelodau Bwrdd HCC
- Mae gan un o swyddogion Llywodraeth Cymru statws sylwebydd ar Fwrdd HCC ac felly mae'n cael gwybod am yr holl faterion ar lefel Bwrdd HCC
- Cynhelir cyfarfodydd llywodraethu ffurfiol chwarterol rhwng lefel weithredol HCC a gweision sifil; a
- Cyfarfod misol a gynhelir rhwng lefel weithredol HCC, Cadeirydd HCC a Chyfarwyddwr Materion Gwledig Llywodraeth Cymru.

70. Mae lefel bresennol ymglymiad Llywodraeth Cymru â HCC, fel y disgrifir uchod, yn darparu, yn ein barn ni, **y cydbwysedd cywir rhwng y rhyddid i weithredu a throsolwg atebolrwydd** o ran rhagolygon strategol a chyflawniad ariannol amcanion.

71. **Mae natur wasgaredig sylfaen gyflenwi cig coch Cymru** yn ei gwneud yn anodd iawn i ddatblygu a gweithredu strategaeth heb y cyfrwng cywir i wireddu'r bwriad hwnnw.

72. Mae unrhyw strwythurau goruchwyllo amgen nad ydynt yn cynnwys **unrhyw arolygiaeth gan Lywodraeth Cymru** a mwy o berchnogaeth cadwyn gyflenwi mewn perygl o fethu oherwydd y natur wasgaredig a grybwyllwyd uchod a buddiannau breintiedig posibl yn y gadwyn gyflenwi.

73. Mae unrhyw strwythurau goruchwyllo amgen sy'n cynnwys **mwy o arolygiaeth gan Lywodraeth Cymru** mewn perygl o ddieithrio cadwyn gyflenwi sydd yn ei natur yn amheus o ymyrraeth ormodol gan y llywodraeth.


Ai HCC yw'r cyfrwng mwyaf effeithiol ar gyfer datblygu, hyrwyddo a marchnata cig coch o Gymru, ac ai ardoll cig coch yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ariannu'r gweithgarwch hwn.

74. Mewn egwyddor, HCC yw'r **cyfrwng mwyaf priodol ar gyfer cefnogi'r diwydiant cig coch** yng Nghymru o hyd, am y rhesymau a ganlyn:

- Cynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol yn y gadwyn gyflenwi
- Gallai sicrhau cyfraniadau ariannol gan yr holl randdeiliaid perthnasol
- Ffocws un meddwl ar y diwydiant cig coch yng Nghymru
- Dangos cefnogaeth wirioneddol Llywodraeth Cymru i'r diwydiant cig coch yng Nghymru
- Darparu arbenigedd a gwybodaeth annibynnol i'r diwydiant
- Gwarcheidwaid brandiau Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI

- Caniatáu ar gyfer mecanwaith i Lywodraeth Cymru gefnogi gweithio mewn partneriaeth â'r diwydiant dros ganfyddiad o bennu polisi yn unig; a
- Bodloni'r angen i alinio cadwyn gyflenwi draddodiadol a gwasgaredig iawn.

75. Er mwyn cefnogi'r diwydiant yn briodol a chyflawni ei amcanion, **mae angen cyllid digonol ar HCC o ran lefel a strwythur.**



76. Hyd at 2024 roedd y sefydliad yn cael ei ariannu gan gyfuniad o arian talwyr yr ardoll a chymorth grant a gafwyd yn wreiddiol o gronfeydd yr UE sydd bellach wedi dod i ben.

77. Mae incwm yr ardoll ei hun yn cael ei yrru gan ddau ffactor allweddol. Ardoll y pen a nifer y pennau. Fel y gwelir yn y graff hyd yn oed ar ôl cyfrif am gynnydd chwyddiant ar yr ardoll y pen (ers Ebrill 2023) mae incwm yr ardoll wedi gostwng yn sylweddol dros y blynnyddoedd diwethaf ac yn parhau i wneud hynny. Effaith ychwanegol y gostyngiad parhaus yn nifer y da byw yw bod **màs critigol mewnbnw ar gyfer proseswyr Cymreig yn cyrraedd pwynt tyngedfennol yn gyflym** gyda risg uwch o golli capasiti prosesu sylweddol trwy gau gweithfeydd.

78. Yn ogystal, mae newidiadau yn y modd y mae CThEF yn trin y gyfradd TAW ar gyfer y cwmni ers 2025 yn golygu na all y cwmni hawlio TAW yn ôl ar ei bryniannau mwyach, sy'n golygu **colled bellach o tua £400,000 y flwyddyn** mewn pŵer prynu.

79. Effaith net hyn yw bod **pŵer prynu'r sefydliad bellach yn llai na hanner yr hyn ydoedd ddeng mlynedd yn ôl** o'i fesur mewn punnoedd heddiw.

80. Yn ogystal, ar hyn o bryd nid yw Llywodraeth Cymru yn darparu unrhyw gymorth ariannol blynnyddol i HCC sy'n arwain at incwm ardoll fel canran o werth yr anifail gorffenedig o tua **0.7% ar gyfer defaid a 0.4% ar gyfer gwartheg**, sy'n dod yn fwyfwy heriol ar gyfer cyflawni amcanion y sefydliad yn effeithiol.

81. I liniaru'r heriau uchod yn rhannol, mae HCC wedi dilyn nifer o fentrau, fel a ganlyn:

- **Cynnydd yng Nghyfradd yr Ardoll:** ymgynghorodd HCC â'r diwydiant ar gyfraddau'r ardoll yn ystod hydref 2022. Cynigiwyd y byddai cynnydd yng nghyfraddau'r ardoll yn y dyfodol yn cysylltu â chwyddiant, wedi'i fesur gan Fynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys costau tai perchen-feddianwyr (CPIH) o'r flwyddyn galendr flaenorol. Cynyddwyd cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru ym mis Ebrill 2023 yn dilyn galwad am farn gan y diwydiant, argymhellwyd mecanwaith i gysylltu codiadau ardoll yn y dyfodol â'r CPIH gan Fwrdd HCC ac fe'i cytunwyd wedi hynny gan y Gweinidog.
- **Ailberchnogi'r Ardoll:** o fis Ebrill 2021, daeth cynllun i ad-ddosrannu ardoll cynhyrchwyr rhwng Cymru, Lloegr a'r Alban, i ganiatáu ar gyfer symud anifeiliaid a fagwyd mewn un wlad ond a laddwyd mewn gwlad arall, i rym. Cyflwynwyd y cynllun i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd yn y system lle roedd yr ardoll yn cael ei chasglu yn y wlad lle cafodd yr anifail ei ladd heb ystyried y wlad lle treuliodd ran sylweddol o'i oes.
- **Ariannu Allanol:** yn hanesyddol mae HCC wedi gallu ychwanegu at incwm yr ardoll drwy gronfeydd allanol, enghraifft o hyn oedd y Rhaglen Datblygu Cig Coch (RhDCC). Darparwyd y RhDCC pum mlynedd gwerth £9.2m drwy Gymunedau Gwledig yr Undeb Ewropeaidd / Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Mae enghreifftiau eraill o gyllid a dderbyniwyd gan HCC yn cynnwys Rhaglen Datblygu Allforio Gwell Llywodraeth Cymru. Mae HCC wedi bod yn llwyddiannus gydag ychydig o brosiectau yn y maes hwn, megis Cronfa Her ARFOR a hefyd rhaglen Solutions Catalyst ArloesiAber. Mae llawer o sefydliadau bellach yn addasu eu strwythur a'u harddull cyflwyno i gwrdd â'r dirwedd ariannu newidiol.
- **Effeithlonrwydd:** mae'r sefydliad yn parhau i nodi cyfleoedd i sicrhau arbedion drwy leihau gwariant lle bo'n briodol, cynyddu incwm a sicrhau'r gwerth gorau am arian i dalwyr ardoll Cymru. Mae mesurau allweddol yn cynnwys strwythur staffio diwygiedig, gan sicrhau nad yw swyddi yr ystyrir nad oes eu hangen bellach yn cael eu disodli (gan arbed £240,000 y flwyddyn), a rhesymoli ystadau i wneud y defnydd gorau o ofod swyddfa a chyfleusterau HCC (arbed tua £300,000 dros bum mlynedd). Er nad yw'n effeithio'n uniongyrchol ar gronfeydd talwyr yr ardoll, rhoddodd HCC hefyd y gorau i'w gytundeb les presennol ar gyfer swyddfeydd EID Cymru yn ddiweddar drwy gytuno i'w symud i gyfleusterau presennol Llywodraeth Cymru gan arwain at arbedion o tua £400,000 i drethdalwyr dros bum mlynedd, gan danlinellu ymrwymiad HCC i ddarparu gwerth da am arian a'i allu i weithredu'n gyflym. Yn ogystal, mae HCC yn parhau i adolygu prosesau caffael i sicrhau gwerth gorau am arian, rhoi mentrau trawsnewid digidol ar waith i symleiddio llifoedd gwaith, a mireinio arferion rheoli cyllideb i flaenoriaethu gweithgareddau hanfodol.

82. **Er mwyn mynd i'r afael â'r angen am gapasiti ariannol parhaus ac ailddatgan ei hymrwymiad i gefnogi'r diwydiant, yn ogystal â'i hymagwedd gydweithredol â'r gadwyn gyflenwi, dylai Llywodraeth Cymru ystyried perthynas ariannol wrth symud ymlaen, sy'n adlewyrchu'r capasiti ariannu cyn ymadael â'r UE.** Byddai hyn nid yn unig yn sicrhau sefydlogrwydd a thwf parhaus y sector ond hefyd yn galluogi HCC i gyflawni ei gyfrifoldebau'n llawn o dan *Fesur y Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010*. Mae digon o arian grant gan Lywodraeth Cymru ac incwm yr ardoll yn hanfodol ar gyfer cyflawni mentrau allweddol yn effeithiol, gan sicrhau cynaliadwyedd y diwydiant a'i allu i gwrdd â heriau'r dyfodol.

Cadeiryddion y Pwyllgor Iechyd a Gofal
Cymdeithasol; Pwyllgor yr Economi, Masnach a
Materion Gwledig; y Pwyllgor Cydraddoldeb a
Chyfiawnder Cymdeithasol; y Pwyllgor Plant,
Addysg a Phobl Ifanc; Pwyllgor Diben Arbennig
Ymchwiliad COVID-19 Cymru

07 Mawrth 2025

Annwyl Gadeirydd

Deiseb P-06-1488 Sefydlu 'Cymdeithas Gofal' i Fynd i'r Afael â'r Argyfwng COVID Hir yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb uchod yn ei gyfarfod ar 17 Chwefror, ynghyd â gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol, a'r deisebydd.

Yn ystod y drafodaeth, nodais bwyntiau allweddol a godwyd yn fy nghyfarfod blaenorol â'r deisebwyr. Cydnabu'r Aelodau gwmpas eang y materion a godwyd, sy'n ymestyn y tu hwnt i gylch gorchwyl y Pwyllgor Deisebau. Roedd yn amlwg y byddai mynd i'r afael â'r pryderon hyn yn gofyn am strategaeth drawslywodraethol gan Lywodraeth Cymru.

O ganlyniad, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Prif Weinidog – gan gopïo Ysgrifenyddion Cabinet perthnasol i mewn, er ymwybyddiaeth – i holi am strategaeth draws-bortffolio'r Llywodraeth ar gyfer mynd i'r afael â COVID hir, yn enwedig mewn perthynas ag unigolion sydd naill ai'n ddi-waith, neu'n wynebu anawsterau o ran dychwelyd i'r gwaith, oherwydd COVID hir sydd, o bosibl, heb gael ei ddiagnosisio.

At hynny, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at bwyllgorau pwnc perthnasol y Senedd i ofyn am ragor o wybodaeth am eich gwaith ymchwilio parhaus neu arfaethedig ynghylch dull strategol Llywodraeth Cymru o ymdrin â COVID hir.

Mae'r manylion llawn am drafodaeth y Pwyllgor ar y ddeiseb, gan gynnwys yr ohebiaeth a'r camau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor, ar gael yma: [P-06-1488 Sefydlu 'Cymdeithas Gofal' i Fynd i'r Afael â'r Argyfwng COVID Hir yng Nghymru](#).

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon eich ymateb drwy e-bost at y tîm clericio yn deisebau@senedd.cymru.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Carolyn". The script is cursive and fluid, with the 'C' being particularly large and the 'n' ending in a small loop.

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Huw Irranca-Davies AS/MS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate
Change and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO/HIDCC/0106/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

10 Mawrth 2025

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu atoch yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod i chi fod cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig y bwriedir am 10 Mawrth wedi'i ohirio. Mae swyddogion yn gweithio i nodi dyddiad newydd. Byddaf yn diweddarau'r Pwyllgor os nodir dyddiad newydd cyn y cyfarfod nesaf a drefnwyd a gynhelir ar 12 Mai.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn hefyd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies AS/MS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@gov.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 47
Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb.

Aelod o'r Senedd dros
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Member of the Senedd for
Mid and West Wales

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Jane.Dodds@senedd.cymru

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Jane.Dodds@senedd.wales

0300 200 6565 

@janedoddswld 

@DoddsJane 

/JaneDoddsWLD 

Rebecca Evans MS

**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning
Welsh Government**

5th Floor

Tŷ Hywel

Cardiff Bay

CF99 1NA

Dyddiad | Date: 10/03/2025

**Pwnc | Subject: Urgent: Delays in IPU Application Decisions – Request for Clear
Timeline and Interim Measures**

Annwyl Rebecca,

I am writing to express my deep concern regarding the unacceptable delays in decision-making on application 20/0717/FUL and other Intensive Poultry Unit (IPU) applications currently under holding directions. While I fully appreciate the legal obligations to protect Special Areas of Conservation (SACs) and the complexities of phosphate discharge management, these prolonged delays are creating significant uncertainty and hardship for my constituents.

The ongoing review of the Water Resources (Control of Agricultural Pollution) (Wales) Regulations 2021 and further work on organic material spreading are important, but they must not be used as an excuse for indefinite delays. Businesses, farmers, and communities deserve clarity and certainty.

I am therefore asking for a firm timeline for decisions on these applications, including key milestones and any interim measures that can be put in place to provide transparency and accountability in this process.



Jane Dodds

Aelod o'r Senedd dros
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Member of the Senedd for
Mid and West Wales

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Jane.Dodds@senedd.cymru

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Jane.Dodds@senedd.wales

0300 200 6565 

@janedoddswld 

@DoddsJane 

/JaneDoddsWLD 

Given the impact of this issue on rural communities, I am copying in the Economy, Trade and Rural Affairs Committee to ensure that there is proper scrutiny of the delays and their consequences. I urge you to provide a clear response outlining when and how these matters will be resolved, as well as any temporary measures that can be taken to mitigate ongoing uncertainty.

I look forward to your prompt response with a clear action plan.

Yn gywir,



Jane Dodds MS/AS

Member of the Senedd for Mid and West Wales
Aelod o'r Senedd dros Canolbarth a Gorllewin Cymru

cc: Andrew RT Davies MS, Chair of the Economy, Trade and Rural Affairs Committee





Darragh O'Brien T.D
Department of Transport,
Leeson Lane,
Dublin 2, D02 TR60

Mr RT Davies MS
Economy, Trade, and
Rural Affairs Committee,
Welsh Parliament,
Cardiff Bay,
Cardiff,
CF99 1SN

By email: SeneddEconomy@senedd.wales

10th of March 2025

Dear Mr. RT Davies MS,

I wish to acknowledge your letter of 4 February 2025 in relation to the proposed Welsh Senedd's Economy, Trade and Rural Affairs Committee short inquiry into the recent storm damage and related closure of Holyhead Port.

In light of the severe impacts that the disruption to services at Holyhead had on the Irish supply chain to Wales and the UK, I welcome your request for feedback from an Irish perspective.

I will begin with setting out the impact of the disruption, which in effect closed one of the most important sea routes out of Ireland to the UK. This route is especially important in terms of freight Roll-On\Roll-Off (RoRo) traffic both accompanied with driver and



unaccompanied loads and is a vital sea route for car and foot passenger traffic. The timing of the disruption coincided with one of the busiest times of the year.

In terms of volumes of trade, up to 10,000 units would cross the Irish Sea and in the region of up to 100,000 car passengers use the route per week on average in the weeks up to Christmas. Prior to the disruption this most strategic route had over a hundred sailings (average of 52 departures/52 arrivals) each week. The Dublin - Holyhead route comprises 34% of RoRo freight traffic moving between Ireland and Great Britain over the calendar year and approximately 23% all containerised/unitised freight coming through Irish ports.

The direct impacts were immediately evident to the ferry companies and to the road haulage sector. The ferry companies had to adjust to redeploying vessels onto existing alternative routes and also exploring possible new routes as temporary solutions. For example, Irish Ferries introduced temporary services between Dublin to Fishguard and Dublin to Pembroke with capacity for car passengers as well as freight.

The haulage sector in Ireland was faced with longer journey times, indeed on both sides of the Irish Sea, with significant numbers diverting away from Dublin to other ports such as Rosslare and also Belfast port. In response to the issues faced by the haulage sector the Department of Transport in consultation with the Road Safety Authority, applied a temporary derogation and limited relaxation of drivers' hours rules which applied from 14 December 2024 until 12 January 2025. The UK's temporary relaxation of drivers' hours was also relevant.

For the most part the steps taken within the freight system were appropriate, the extent of which were determined largely by the capacity of individual ports on both sides of the Irish Sea and linked with the capacity of the shipping companies to re-deploy vessels or provide extra sailings on alternate routes.



While the additional capacity put in place was sufficient for a short-term disruption, it was apparent that other routes were then utilised to their maximum capacity. This very high level of capacity utilisation is not sustainable and does not provide for a resilient system in case other disruptive events were to occur. It is also not sustainable from a cost perspective for the supply chain actors since the high demand led to price increases in ferry costs. It is therefore extremely important from the Irish perspective that measures are implemented to ensure that full Holyhead capacity is restored and that the infrastructure is resilient into the future.

In considering measures to enhance resilience into the future it should be noted that there is an increasing trend, in Ireland at least, for RoRo freight to travel unaccompanied on maritime routes. It is much more difficult for this type of freight to be diverted when disruption occurs given the additional labour requirement for providing drivers and for shunting services at the origin and destination ports. Consideration should be given as to the balance between accommodating accompanied and unaccompanied Ro-Ro freight at ports for better resilience in the longer term.

In terms of communication, the uncertainty in the first few days following the storm as to the extent of the damage and likely period of disruption, as communicated by the port operator, did initially hamper the discussion of, exploration and implementation of meaningful and suitable responses.

The efforts of the Irish, Welsh and UK Governments and officials through the various channels opened with each other and with stakeholders for the duration of the disruption were very effective in providing the platform for more open communications. This was certainly true of the Welsh Government's interactions with the port operator at Holyhead and with other Welsh ports in exploring options for increased services to those ports.



I would suggest that these relationships should continue and be strengthened. Consideration could be given to the designation of transport and supply chain coordinators on both sides of the Irish Sea, which could operate in a similar fashion to the network of “EU Green Lanes” coordinators which is activated in emergency circumstances to keep transport links and supply chains moving. I believe that consideration should also be given to how best to provide adequately for drivers’ welfare such as food, toilets and accommodation in such events. The provision and dissemination of information on traffic management from official sources would also be of benefit.

The Department of Transport does not hold any information on the contributing factors to the severity of the damage to the port and therefore cannot provide a viewpoint on the causes.

Finally, the Department of Transport in conjunction with the Irish Maritime Development Office is in the process of conducting a lessons learnt exercise from the Irish perspective. The early analysis has highlighted the issues addressed in this response and will provide further insights once completed. The Department looks forward to the opportunity to input to the proposed Task Force on the future of Holyhead as announced by Cabinet Secretary for Transport and North Wales, Ken Skates.

I wish the Committee every success with the enquiry.

Darragh O’Brien T.D
Minister for Transport

Andy Sheen
Prif Swyddog Gweithredol
Irish Ferries

18 Mawrth 2025

Annwyl Andy,

Difrod a Chau Porthladd Caergybi yn Dilyn Storm

Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn Senedd Cymru ydw i. Cafodd ein Pwyllgor ei sefydlu i archwilio polisi a deddfwriaeth, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif mewn meysydd sy'n cynnwys busnes, datblygu economaidd, sgiliau, masnach ryngwladol, amaethyddiaeth, pysgodfeydd a bwyd.

Ysgrifennaf fel rhan o'n hymchwiliad i Ddifrod a Chau Porthladd Caergybi yn Dilyn Storm. Ar 6 Mawrth, cawsom dystiolaeth gan nifer o sefydliadau ac arbenigwyr, gan gynnwys Stena Line Ports. Cafodd Irish Ferries wahoddiad i'r sesiwn hon ond, er mawr siom, ni chawsom ymateb. Mae trawsgriafiad a fideo o'r cyfarfod hwn ar gael ar ein gwefan.

Fel rhan o'i dystiolaeth, dywedodd Stena Line Ports fod y difrod wedi digwydd i Derfynfa 3, sy'n cael ei defnyddio'n bennaf gan Irish Ferries. Nodwyd hefyd y cafwyd dau ddigwyddiad wrth ddocio ar 6 a 7 Rhagfyr 2024, a oedd yn golygu nad oedd modd defnyddio docfa Terfynfa 3. Cafodd Storm Darragh ei rhagfynegi; fodd bynnag, roedd y digwyddiadau hyn yn union cyn i'r storm gyrraedd ei hanterth pan oedd y rhybudd tywydd coch ar waith.

Hoffai'r Pwyllgor gael barn Irish Ferries am y dystiolaeth yn ein sesiwn ar 6 Mawrth. Mae gennym ddiddordeb arbennig yn eich ymateb i'r dyfyniadau uchod ac mewn gwybodaeth am eich gweithrediadau rhwng Caergybi a Dulyn ar 6 a 7 Rhagfyr, gan gynnwys eglurhad ynghylch unrhyw benderfyniadau a wnaed ar ôl i Swyddfa Dywydd y DU gyhoeddi'r Rhybudd Tywydd Coch ar gyfer Caergybi a'r rhan fwyaf o arfordir Cymru.



Cawsom dystiolaeth hefyd fod dau ddigwyddiad arall yng Nghaergybi yn 2023 a 2024 yn ymwneud â'r 'dolffiniaid' docio a'u clustogau. Dywedodd yr Athro Andrew Potter wrthym mai ychydig o wybodaeth sydd ar gael ar wefan y Gangen Ymchwilio i Ddamweiniau Morol ond ei bod yn edrych fel bod y ddau ddigwyddiad yn ymwneud â symud mewn gwyntoedd cryfion. A allech egluro a oedd Irish Ferries yn gysylltiedig â'r naill ddigwyddiad neu'r llall? Os felly, a fydddech cystal â rhoi'r manylion?

Byddai'r Pwyllgor hefyd yn croesawu unrhyw wybodaeth arall yr hoffech ei darparu a allai fod yn berthnasol i'n hymchwiliad i ddifrod a chau'r porthladd yn dilyn y storm. Yn benodol, byddai'r Pwyllgor yn awyddus i gael unrhyw safbwyntiau sydd gennych ar y canlynol:

- Achosion: y ffactorau a gyfrannodd at ddifrifoldeb y difrod.
- Cyfathrebu: y dull o gyfathrebu yn ystod y storm, ac wedyn, gan gynnwys cyfathrebu â defnyddwyr porthladdoedd, cymunedau a busnesau yr effeithiwyd arnynt gan gau'r porthladd, a hefyd rhwng llywodraethau.
- Adfer: cyflymder yr ymateb o ran asesu ac atgyweirio'r difrod, gan gynnwys y cymorth a ddarparwyd gan y Llywodraeth.
- Effaith: effaith y cau, yn ogystal â maint ac effeithiolrwydd y camau sy'n cael eu cymryd i liniaru'r effeithiau.

Byddai'n cael eich ymateb i'r llythyr hwn erbyn 11 Ebrill. Rwy'n edrych ymlaen at ddarllen eich tystiolaeth.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, am fod y Pwyllgor hwnnw hefyd yn ymddiddori yn y mater hwn.

Yn gywir,



Andrew RT Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

CC: Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith



Y Gwir Anrh. Elin Jones AS
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

13 Mawrth 2025

Annwyl Lywydd,

Adolygiad y Pwyllgor Busnes o'r prosesau ar gyfer Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelod

Diolch am y cyfle i gyfrannu at adolygiad y Pwyllgor Busnes o brosesau Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelodau. Trafododd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig eich llythyr ynglŷn â'r adolygiad hwn ar 12 Mawrth.

Profiad cyfyngedig sydd gennym o brosesau Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelodau, felly nid oes gennym lawer i'w ychwanegu at yr adolygiad. Gobeithiwn y byddwch yn cael ymatebion llawnach gan Aelodau sydd wedi bod yn llwyddiannus yn y bleidlais ac yna wedi ceisio mynd â deddfwriaeth drwy'r Senedd.

Hoffem wneud y sylw canlynol, fodd bynnag: Nid oes gan yr Aelodau yr adnoddau na'r amser a roddir i'r Llywodraeth ar gyfer datblygu deddfwriaeth. Felly, dylai'r Aelodau sicrhau bod eu deddfwriaeth arfaethedig yn benodol, yn fyr a chyda chanolbwynt. Dylid cynnig cyngor i'r perwyl hwn i'r Aelodau sy'n mynd i mewn i'r bleidlais yn y Seithfed Senedd.

Cofion cynnes,



Andrew RT Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

